

# Ieithoedd arwyddion a systemau arwyddion

Mae **ieithoedd arwyddion** yn cael eu defnyddio gan y gymuned fyddar. Mae ganddyn nhw ramadeg a threfn geiriau eu hunain. Yn y DU, rydyn ni'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ond mae gan wledydd eraill eu hieithoedd eu hunain, er enghraifft Iaith Arwyddion America (American Sign Language (ASL)) ac Auslan yn Awstralia.

Mae **systemau arwyddion** yn benthg arwyddion o ieithoedd arwyddion. Maen nhw'n defnyddio gramadeg a threfn geiriau'r iaith lafar.

## Ieithoedd arwyddion

### Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

#### Beth yw BSL?

Mae BSL yn iaith leiafrifol frodorol ac yn iaith gyntaf llawer o bobl fyddar yng Nghymru. Mae wedi'i chynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ochr yn ochr â'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Mae [canllawiau BSL Cwricwlwm i Gymru](#) yn cefnogi cynnydd yn BSL i ddefnyddwyr BSL byddar yn ogystal â chynnig cyfle i ysgolion gyflwyno BSL fel ail iaith, trydedd iaith neu fel iaith ddilynol.

#### Ar gyfer pwy mae BSL?

Gall unrhyw un ddysgu BSL gan gynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae pobl sydd wedi defnyddio systemau arwyddo yn gallu dysgu BSL.

#### Sut gall BSL gefnogi cynnydd mewn dysgu?

Mae BSL yn gyfrwng dysgu i ddefnyddwyr BSL byddar. Mae cynnydd yn cael ei fynegi yn y [disgrifiadau dysgu BSL](#) yn y Cwricwlwm i Gymru.

# Systemau arwyddion

## Makaton

### Beth yw Makaton?

Rhaglen gyfathrebu yw [Makaton](#) sy'n defnyddio arwyddion, lleferydd a symbolau.

### Ar gyfer pwy mae Makaton?

Gall Makaton helpu pobl sydd ag anghenion cyfathrebu. Mae'n cael ei ddefnyddio amlaf gyda phlant ifanc a phobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

### Sut gall Makaton gefnogi cynnydd mewn dysgu?

Mae Makaton yn gallu cefnogi cynnydd Cymraeg a/neu Saesneg.

## Signalong

### Beth yw Signalong?

Mae [Signalong](#) yn system gyfathrebu sy'n defnyddio arwyddion ar gyfer geiriau allweddol gyda threfn geiriau yr iaith lafar.

### Ar gyfer pwy mae Signalong?

Mae Signalong yn gallu helpu pobl sydd ag anghenion cyfathrebu. Mae'n cael ei ddefnyddio amlaf gyda phlant ifanc a phobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

### Sut gall Signalong gefnogi cynnydd mewn dysgu?

Mae Signalong yn gallu cefnogi cynnydd Cymraeg a/neu Saesneg.

## Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion

### Beth yw Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion?

Mae Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion yn defnyddio arwyddion wedi eu benthycio o BSL ond mae'n dilyn trefn geiriau yr iaith lafar.

### Ar gyfer pwy mae Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion?

Mae Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion yn cael ei defnyddio i gefnogi iaith lafar Cymraeg neu Saesneg. Mae'n cael ei defnyddio gan amlaf ym myd addysg.

### Sut gall Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion gefnogi cynnydd mewn dysgu?

Mae Cymraeg/Saesneg a gefnogir gan arwyddion yn gallu cefnogi cynnydd Cymraeg/Saesneg.